Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**
**Heol Gelli Haf**
**Fleur De Lys**
**Coed-duon**
**NP12 3JQ**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn ailymweld â'r ysgol ar ôl derbyn y cynllun gweithredu, i sicrhau ei fod yn addas ac yn debygol o ysgogi'r gwelliant gofynnol. Bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgol eto, ymhen tua 12 mis, i fonitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

O dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, mae'n rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni a baratoir gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002 gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ymysg y disgyblion prydau ysgol am ddim

Er bod y mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu gwersi, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda iawn. Mae llawer yn ymddiddori yn eu gwersi ac yn barod i weithio. Dangosant falchder amlwg yn eu gwaith ac, yn gyffredinol, mae diwyg eu llyfrau yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon, a'i gilydd. Mae llawer ohonynt yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn ymateb yn estynedig ar lafar ond, yn gyffredinol, nid ydynt yn datblygu'r medr hwn yn ddigonol. Mae ychydig â geirfa gyfyngedig ac yn cyfleu eu hunain yn chwithig.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau sylfaenol cadarn. Maent yn sgimio ac yn sganio yn gymwys ac yn lleoli a chywain gwybodaeth yn addas. Mae'r mwyafrif yn ymdrin yn briodol â deunyddiau darllen ffeithiol a llenyddol. Mae'r disgyblion hyn yn dehongli testunau yn effeithlon ac yn defnyddio termau technegol yn gywir wrth wneud hynny. Er enghraifft, yn hanes, maent yn dadansoddi amrywiaeth o ffynonellau hanesyddol i ddod i farn ynghylch amodau byw yn ystod y chwyldro diwydiannol. Fodd bynnag, wrth astudio testunau llenyddol yn benodol, mae lleiafrif yn dueddol o adnabod technegau yn fecanyddol yn hytrach na dadansoddi'u heffaith yn ôl gofynion y dasg.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu'u gwaith ysgrifennu'n briodol ac yn paragraffu'n bwrpasol. Mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm, mae'r mwyafrif yn

ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau yn addas, gan arddangos dealltwriaeth briodol o gynulleidfa. Mae geirfa gyfoethog gan ychydig o ddisgyblion ac maent yn amrywio eu brawddegau yn gelfydd, er enghraifft pan maent yn ysgrifennu areithiau angerddol ynghylch yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n wallus ac yn esgeulus o ran eu hatalnodi. Yn ogystal, mae lleiafrif yn or-ddibynnol ar sgaffaldau wrth lunio'u gwaith ysgrifenedig a, dros amser, nid ydynt wedi datblygu eu medrau ysgrifennu annibynnol yn ddigonol.

Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion afael briodol ar y prif gysyniadau rhif ac maent yn cymhwyso eu medrau a'u gwybodaeth mewn sefyllfaoedd newydd yn addas. Er enghraifft, yn daearyddiaeth, mae disgyblion yn defnyddio graddfa map yn hyderus i gyfrifo'r pellter rhwng dinasoedd yn Ne America. Mae'r mwyafrif yn casglu a threfnu data'n addas, gan lunio graffiau cywir a defnyddio'r wybodaeth i ddod i gasgliadau synhwyrol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol yn addas i ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth, er nad ydynt yn datblygu eu huwch fedrau TGCh yn briodol. Maent yn gymwys wrth ddefnyddio meddalwedd rhyngweithiol er mwyn cydweithio ar brosiectau penodol, megis gwaith ar gyflwr yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn addas, er enghraifft wrth weithio allan pa adar fyddai'n gallu goroesi ar wahanol ynysoedd yn y Galapagos. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigonol. Mae lleiafrif yn or-ddibynnol ar gefnogaeth yr athro ac nid yw eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon datblygedig. Mae ychydig o ddisgyblion yn araf i weithio ac yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Ers yr arolygiad craidd, nid yw perfformiad yr ysgol yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi cymharu'n ffafriol gyda pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod islaw disgwyliadau ers pedair blynedd. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn nodedig is na disgwyliadau ers tair blynedd. Yn y dangosydd 5 gradd TGAU A*-A neu gyfwerth, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn amrywiol dros y cyfnod hwn, ond wedi dirywio yn 2018 ac yn is na disgwyliadau. Gwelwyd gostyngiad nodedig yn y dangosydd lefel 1 yn 2018 hefyd.

Mae perfformiad yn y pynciau craidd wedi bod yn amrywiol ers amser yr arolygiad. Mae perfformiad yn y Gymraeg wedi gwella yn raddol bob blwyddyn ac yn 2018 mae uwchlaw disgwyliadau. Mae perfformiad ym mathemateg a Saesneg wedi bod yn anwadal dros yr un cyfnod. Yn 2018 mae perfformiad yn y ddau bwnc islaw disgwyliadau, ac yn nodedig felly ym mathemateg.

Mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim wedi bod yn amrywiol iawn. Gwelwyd gwelliant yn eu perfformiad yn tua hanner y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn 2017 ond, yn gyffredinol, nid yw eu perfformiad wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg ers yr arolygiad craidd.

Ers Medi 2018, mae arweinwyr wedi gweithredu'n gadarn i ddadansoddi'r rhesymau dros y dirywiad mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4. Mewn ymateb, maent wedi rhoi gweithdrefnau newydd yn eu lle a mireinio prosesau yn addas, er ei bod yn rhy gynnar i farnu eu heffaith ar safonau. Er enghraifft, maent wedi cryfhau eu system olrhain cynnydd ac wedi cyflwyno trefn newydd ar gyfer cyfarfodydd cyswllt. Mae'r llywodraethwyr hefyd wedi adolygu eu systemau ac wedi sefydlu panel hunanwerthuso sydd yn eu galluogi i gefnogi a herio'r ysgol yn well nag yn y gorffennol. Fodd bynnag, cyn y cyfnod diweddar hwn, nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon strategol nac yn ddigon buan i adnabod ac ymateb i'r diffyg cynnydd mewn safonau. Nid yw'r cyfundrefnau hunanwerthuso wedi bod yn ddigon miniog i adnabod gwendidau, er enghraifft i adnabod nad oedd trefniadau asesu, tracio a monitro cynnydd disgyblion yn ddigon dibynadwy na thynn. Yn ogystal, nid yw trefniadau monitro ansawdd a sicrhau atebolrwydd wedi bod yn ddigon trylwyr. Oherwydd hyn, nid yw arweinwyr wedi blaenoriaethu'n addas ac nid yw cynlluniau gwella wedi bod yn ddigon strategol nac amserol. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar safonau.

## A2. Gwella lefelau presenoldeb

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r angen i wella presenoldeb disgyblion. Maent yn defnyddio strategaethau amrywiol a defnyddiol i gynyddu presenoldeb ac mae'r gwaith hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion yn 2018. Fodd bynnag, cyn y cyfnod hwn, nid oedd strategaethau'r ysgol i wella presenoldeb yn ddigon cadarn ac ni ymatebodd arweinwyr yn ddigon cyflym nac yn ddigon effeithiol i alluogi cynnydd digonol.

Mae presenoldeb wedi gwella'n raddol ers yr arolygiad craidd ond mae'r gwelliant wedi bod yn fwy nodedig yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2018, mae'r ysgol yn perfformio'n debyg i ysgolion tebyg am y tro cyntaf ers dros pedair blynedd. Mae absenoldeb cyson wedi lleihau dros y cyfnod hwn ac, yn 2018, mae'n sylweddol is nag mewn ysgolion tebyg. Mae presenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi gwella'n gyson ers yr arolygiad. Mae'n cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi adolygu gwaith y tîm lles yn addas. Mae'r swyddog presenoldeb newydd yn cynnig cefnogaeth werthfawr i arweinwyr cynnydd ac i ddisgyblion a'u teuluoedd. Erbyn hyn, mae cyfeiriad pendant i'r gwaith o wella presenoldeb disgyblion ac mae llinellau atebolrwydd clir rhwng rheolwyr canol ac aelodau'r uwch dîm arwain. Ers Medi 2018, mae'r arweinwyr lles yn cael eu dwyn i gyfrif yn briodol gan y llywodraethwyr.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol yn cyfathrebu eu disgwyliadau uchel ynghylch presenoldeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn egluro'n gadarn i'r holl randdeiliaid y cyswllt rhwng presenoldeb disgyblion a'u cyflawniad. Mae pwysigrwydd presenoldeb yn cael sylw amlwg mewn cylchlythyrau, ar nosweithiau rhieni ac yn llyfrau cyswllt disgyblion.

Mae arweinwyr wedi datblygu strategaethau cadarnhaol i annog gwell presenoldeb. Er enghraifft, mae'r elfen gystadleuol rhwng dosbarthiadau i sicrhau'r presenoldeb gorau wedi ennyn brwdfrydedd disgyblion. Mae her y 'marathon 15 diwrnod', sydd yn targedu presenoldeb yn y 15 diwrnod cyn unrhyw wyliau, hefyd wedi cyfrannu'n

gadarnhaol tuag at ostyngiad yn lefelau absenoldeb. Mae'r ddarpariaeth werthfawr yn yr 'ystafell lles' wedi cyfrannu'n ddilys at godi lefelau presenoldeb disgyblion bregus.

Yn 2017-2018, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y gwaharddiadau ond maent wedi dechrau gostwng ers Medi 2018. Mae'r ddarpariaeth addas yn yr Hafan i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, yn cyfrannu'n werthfawr tuag at y lleihad diweddar mewn gwaharddiadau.

**A3. Lleihau'r amrywiad yn yr addysgu drwy barhau i rannu'r arferion gorau sy'n bodoli yn yr ysgol**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith adeiladol gyda'r disgyblion ac mae gan lawer wybodaeth bynciol dda.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cyfathrebu'n glir ac yn darparu adnoddau defnyddiol. Maent yn cynnig cefnogaeth fuddiol i'r disgyblion trwy gylchu'r dosbarth ac yn rhoi adborth llafar pwrpasol, lle bo'r angen. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn darparu her lled addas ar gyfer disgyblion, er nad ydynt yn rhoi digon o sylw i ddatblygu eu medrau meddwl. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu digon o her i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog.

Mewn ychydig iawn o wersi arbennig o effeithiol, mae athrawon yn arddangos brwdfrydedd heintus tuag at eu pwnc ac mae bwrlwm i'r dysgu sydd yn ysbrydoli disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn rhoi digon o her i'r holl ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Maent yn modelu ac yn enghreifftio eu disgwyliadau uchel i ddisgyblion ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu drostynt eu hunain, heb ymyrryd yn ormodol yn y dysgu. Maent yn cwestiynu disgyblion yn dreiddgar, gan fynnu eu bod yn ymateb yn estynedig ac esbonio eu rhesymeg.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau athrawon o beth y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel. Nid yw'r athrawon hyn yn paratoi gweithgareddau sydd yn ddigon heriol. Maent yn arwain disgyblion yn ormodol, gan rhoi gormod o gymorth iddynt. Nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mewn llawer o wersi, nid yw cwestiynu athrawon yn ddigon treiddgar. Nid ydynt yn gofyn cwestiynau sydd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ateb yn estynedig, gan ddatblygu eu dealltwriaeth bynciol ynghyd â'u medrau llafar.

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n bwrpasol ar wella ansawdd adborth i ddisgyblion. Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig adeiladol ar waith disgyblion ac yn esbonio'n glir yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae eu sylwadau yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng targedau pynciol a rhai sydd yn ffocysu ar wella medrau ieithyddol. Mae'r adborth hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'w sylwadau ac maent yn gwirio'u gwelliannau yn briodol. Fodd bynnag, mae'r anghysondeb ar draws adrannau a phynciau o ran gweithredu'r polisi asesu yn effeithiol yn llesteirio ei ddylanwad ehangach.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi darparu cyfleoedd buddiol i athrawon arsylwi cyfoedion a rhannu arfer addysgu da mewn meysydd penodol.  Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant briodol ar sut i arfarnu ansawdd addysgu.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn rhoi pwyslais digonol ar arfarnu ansawdd yr addysgu yn ôl ei effaith ar safonau, cynnydd a medrau disgyblion pan maent yn arsylwi gwersi a chraffu ar waith.  Yn ogystal, nid ydynt yn adnabod meysydd digon penodol sydd angen eu gwella yn yr addysgu.  Er bod yr ysgol yn cyrchu llais y disgybl i arfarnu safon yr addysgu, nid ydynt wedi gwneud defnydd briodol o'r wybodaeth hon.  O ganlyniad i'r agweddau hyn, mae'r amrywiad yn ansawdd yr addysgu yn parhau ac nid yw'r cynlluniau i wella ansawdd yr addysgu yn ddigon penodol.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**